**Gair amdanom ni...**

Mae'r Groes Goch Brydeinig yn helpu unrhyw un, unrhyw le yn y DU i gael y cymorth sydd ei angen arnynt os bydd argyfwng. O logi cadair olwyn, delio ag unigrwydd neu addasu i fywyd mewn gwlad newydd – byddwn yno pan fyddwch ein hangen. Gwraidd ein sefydliad oedd dyhead i roi cymorth heb wahaniaethu.

Mae didueddrwydd ac amhleidioldeb wedi bod yn werthoedd canolog i'r Groes Goch ers y cychwyn cyntaf. Yn y Groes Goch Brydeinig, rydym yn chwilio am y bobl orau i'n helpu ni i ddarparu cymorth i filiynau o bobl yn y DU y mae argyfwng wedi effeithio arnynt. Rydym am i'n tîm adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gan roi cyfleoedd cyfartal i bawb heb ystyried hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, oedran nac anabledd. Rydym yn dathlu amrywiaeth ac rydym am i chi allu bod yn chi eich hun yn y gwaith, a theimlo eich bod mewn safle gwych i'n helpu ni i ledaenu pŵer caredigrwydd. Nid ydym yn goddef unrhyw fath o gamymddwyn, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, camfanteisio a cham-drin. Mae gennym god ymddygiad ar waith ac rydym wedi ymrwymo i greu diwylliant o uniondeb yn y sefydliad, lle nad yw camymddwyn yn cael ei oddef, lle rydym yn ymchwilio i sefyllfaoedd o gam-drin yn gyflym, a lle rydym yn delio â thramgwyddwyr yn effeithiol. Os byddwch yn cael eich penodi i rôl yn y Groes Goch Brydeinig, byddwch yn ddarostyngedig i God Ymddygiad y sefydliad. Mae copi ohono ar gael ar ein gwefan.

Fel rhan o'i phroses recriwtio a dethol, mae'r Groes Goch Brydeinig yn gofyn am archwiliad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ar gyfer pob unigolyn sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phlant ac oedolion agored i niwed neu sydd â mynediad atynt. Os yw gyrru'n un o ofynion hanfodol y rôl, bydd gwiriadau gyrrwr priodol yn cael eu gwneud yn unol â'r polisi cyfredol.

Mae'r Groes Goch Brydeinig wedi'i hymgorffori gan Siarter Frenhinol 1908 ac yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SC037738).

Dilynwch ni ar Twitter – @RedCrossJobsUK ac ar LinkedIn – British Red Cross, i glywed am ein swyddi gwag diweddaraf.